**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 17 Mawrth 2022 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 18 Mawrth 2022 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 25 Mawrth 2022 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

---

**PWNC – Pryniant 29 Llys Adda, Bangor**

---

**PENDERFYNIAD**

I brynu 29 Llys Adda, Bangor, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Craig ab Iago<br>Aelod Cabinet Tai ac Eiddo |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Lowri Cadwaladr Roberts<br>Rheolwr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 17.03.2022 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc : Pryniant 29 Llys Adda, Bangor**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I brynu 29 Llys Adda, Bangor, a hyny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun Gweithredu Tai (CGT) ym mis Chwefror 2021. Mae'r CGT yn ymgorffori 33 o gynlluniau sy'n gweithio tuag at y nod o sicrhau fod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon sy'n fforddiadwy, ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd.

Byddai prynu'r eiddo yma yn cyfranu tuag at nod y Cynllun Gweithredu Tai o sicrhau cartrefi addas a fforddiadwy i bobl Gwynedd.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae 29 Llys Adda yn gartref modern sydd wedi ei farchnata ar y farchnad agored. Ystyrir yn eiddo yn addas ar gyfer cyfarch angen lleol.

Bydd y pryniant i gael ei ariannu ar ffurf benthyciad, gyda'r drefn o ariannu eisioes wedi ei gymeradwyo fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai.

Nid oes unrhyw fwriad i dalu mwy na gwerth y farchnad am yr eiddo.

Mae gofyn i Aelod Cabinet Tai ac Eiddo gymeradwyo'r pryniant yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor dyddiedid Mai 2015.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Dim.

**Prif Swyddog Cyllid** – "Rwyf yn fodlon fod ffynhonnell ariannu ar gael, fel sydd wedi ei nod yn y Cynllun Gweithredu Tai. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir."

**Swyddog Monitro** – "Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

**Aelod/au Lleol:**

**Y Cynghorydd Gareth Anthony Roberts**

Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r argymhelliad cyn belled a bo'r eiddo yn parhau ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd ac yn cael ei osod i bobl leol**.**